Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Rhaglen Diwygio Mynediad

Papur Diffinio Problemau: Grŵp Arbenigol 2

Hyblygrwydd ar Lwybrau Troed Cyhoeddus

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42943 ISBN Digidol 978-1-80391-115-1

# Rhagair

Yn 2017, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a oedd yn cynnwys diwygiadau arfaethedig mewn perthynas â mynediad i gefn gwlad. Nododd dull y llywodraeth o weithredu'r cynigion mynediad yn ôl egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy y canlynol:

- Mae ein Polisi Adnoddau Naturiol yn dangos y gall atebion sy'n seiliedig ar natur hybu iechyd corfforol a meddyliol. Dyna pam yr ydym, fel llywodraeth, wedi ymrwymo i gynyddu mynediad pobl i'n cefn gwlad, a'u mwynhad ohono – er mwyn manteisio ar y buddion iechyd a llesiant llu a geir o fod yn yr awyr agored.
- Mae cefn gwlad hygyrch yn cefnogi'n hymdrechion i hybu Cymru fel cyrchfan twristiaeth.

Ar 4 Ebrill 2019, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol Ddatganiad Ysgrifenedig yn amlinellu ymateb y llywodraeth i'r cynigion mynediad o fewn Pennod 4. Yn y datganiad hwn, nodwyd saith cynnig yr oedd angen eu hystyried yn fanylach o safbwynt y ffordd y dylid eu datblygu ymhellach. Yn dilyn hyn, sefydlodd y Dirprwy Weinidog '**Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad**' annibynnol, yn cynnwys grŵp llywio a thri grŵp arbenigol, i ystyried y cynigion hyn ymhellach a gwneud argymhellion o safbwynt eu gweithredu.

Ym mis Rhagfyr 2019, comisiynwyd Partneriaeth BRO i wneud y canlynol:

- Adolygu nifer o'r ymatebion allweddol i ymgynghoriad 2017.
- Cynllunio a chyflenwi gweithdai a hwylusir ar gyfer pob un o'r tri grŵp arbenigol.
- Llunio tri **Phapur Diffinio Problemau** i'w hystyried gan grŵp llywio'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad.

[Sylwer: bwriedir i'r papur hwn lywio gwaith datblygu'r cynigion ar gyfer diwygio mynediad fel rhan o broses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad; ni ddylid ystyried bod yr hyn sydd wedi'i gynnwys ynddo'n cynrychioli safbwynt polisi Llywodraeth Cymru, CNC, na'r sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan.

# Grŵp Arbenigol 2: Hyblygrwydd ar Lwybrau Troed Cyhoeddus

**Bwriad y polisi: Cynyddu'r amrediad o weithgareddau y gall y cyhoedd eu gwneud ar lwybrau troed cyhoeddus, drwy hawl, a gwella'r prosesau a lleihau'r pwysau gweithdrefnol sydd ynghlwm wrth reoli dargyfeiriadau dros dro ar hawliau tramwy cyhoeddus, eu cau am gyfnodau byr, a chynnal gwaith rheoli stoc arnynt.**

Dim ond mynediad ar droed a geir i lwybrau troed cyhoeddus ar hyn o bryd. Rhoddodd Adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 yr hawl i feicwyr ddefnyddio llwybrau ceffylau, cyn belled â'u bod yn ildio i gerddwyr a marchogwyr ceffylau. Gofynnwyd i Grŵp Arbenigol 2 ystyried cyflwyno hawliau uwch (ar gyfer marchogwyr ceffylau a beicwyr) i lwybrau troed cyhoeddus (Diwygiad 2A). Gofynnwyd i'r grŵp hefyd ystyried y gwaith o ddiwygio prosesau'n ymwneud â dargyfeiriadau dros dro a gwaith rheoli stoc mewn perthynas â hawliau tramwy cyhoeddus (Diwygiad 2B).

# Diwygiad 2A – Ymestyn gweithgareddau ar lwybrau troed cyhoeddus

| |
|---|
| Galluogi pobl i feicio ac i farchogaeth ceffylau drwy hawl ar lwybrau troed cyhoeddus, gan roi mwy o gyfleoedd i feicwyr a marchogion gael mynediad i'r awyr agored. |

Cyfarfu'r grŵp arbenigol ar 4 Chwefror 2020, a gofynnwyd i'w aelodau nodi materion allweddol a'u gosod mewn chwe chategori, fesul thema, a, thrwy ddull 'carwsél', darparu sylwadau manwl ar bob thema.

Roedd y chwe thema a nodwyd fel a ganlyn:

- Cyfreithiol
- Seilwaith
- Effeithiau
- Rheoli tir
- Costau/adnoddau
- Gwybodaeth

Amlinellir y sylwadau manwl a nodwyd o dan bob un o'r penawdau hyn isod:

### Materion cyfreithiol

Un o'r materion cyfreithiol sylweddol y bydd angen ei ystyried yw'r ffaith fod llawer o fapiau diffiniol yng Nghymru yn anorffenedig, ynghyd â'r graddau y bydd angen sicrhau bod y mapiau'n gyfredol cyn y gwneir unrhyw newidiadau ar gyfer cyflwyno defnydd hawliau uwch i lwybrau troed cyhoeddus. Byddai'r map diffiniol yn allweddol wrth ddeall i ba lwybrau y bydd yr hawliau uwch yn berthnasol iddynt, ac os nad yw'n fanwl gywir ac yn gyfredol, fe fyddai'n gwneud y gwaith o weithredu a gorfodi hawliau newydd yn anos.

Ar hyn o bryd, mae gan dirfeddianwyr yr hawl gyfreithiol i fynnu y cedwir y math o adeiledd a gyflwynwyd y llwybr drwy gyfeirio ato, ac ni ellir ei orfodi i'w newid y tu allan i orchymyn cyfreithiol. Canlyniad annisgwyl y bydd angen ei ystyried ynghylch hyn yw p'un a ellid atal, neu ddadwneud y camau cadarnhaol, a'r gwelliannau a wnaed dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mewn perthynas â gwella hygyrchedd llwybrau yn unol ag egwyddorion mynediad lleiaf cyfyngol, os bydd tirfeddianwyr yn

mynnu ar osod camfeydd er mwyn cyfyngu ar fynediad defnyddwyr hawliau uwch. Efallai y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gael pwerau ychwanegol i addasu seilwaith, a byddai angen eglurder ynghylch cyfrifoldebau yn y dyfodol mewn perthynas â chelfi llwybr gwell, fel gatiau a chamfeydd.

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol braidd yn niwlog ynghylch lled gofynnol llwybrau, a byddai angen i unrhyw ddeddfwriaeth newydd fynd i'r afael â hyn ac ystyried p'un a gaiff awdurdodau lleol y pŵer i ledu llwybr er mwyn darparu ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch.  Byddai angen ystyried cyd-destun llwybr, fel ei leoliad a'i dopograffi, ac mae'n amlwg na fyddai'n bosibl cynyddu lled llwybr ym mhob achos.

Cafwyd cytundeb cyffredinol y byddai angen sicrhau bod mecanwaith yn ei le ar gyfer eithrio rhai llwybrau o'r broses o gymhwyso hawliau newydd. Byddai angen dull o reoli ar fecanwaith o'r fath, ynghyd â phroses apeliadau, a byddai angen ystyried pwy fyddai'n gyfrifol am y prosesau hyn. Byddai angen hefyd ystyried y cydberthynas rhwng yr hawliau mynediad cynyddol a hawliau preifat, fel saethu a gwaith rheoli tir mwy cyffredinol. Fodd bynnag, gallai hyn blethu â'r ystyriaethau o dan Ddiwygiad 2B a'r gallu i gyflwyno cyfyngiadau neu ddargyfeiriadau dros dro.

**Materion allweddol:**

1. Beth yw'r ffordd orau o ddiffinio'r hawliau a chyfrifoldebau a fydd yn berthnasol i lwybrau troed cyhoeddus yn y ddeddfwriaeth?
2. Sut y dylid cymhwyso hawliau newydd i'r rhwydwaith llwybrau troed cyhoeddus, a sut y dylid datgymhwyso hawliau, eu gwahardd a/neu gyfyngu arnynt?
3. Bydd angen i'r cynigion diwygio ystyried yr ôl-groniadau sylweddol a geir mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol o safbwynt eu cyfrifoldebau cyfreithiol, yn enwedig gwaith cyfreithiol ar gyfer y map diffiniol o hawliau tramwy cyhoeddus. Dylid ystyried yr hyn y bydd angen ei wneud ynghylch y maes gwaith cyfreithiol hwn mewn perthynas â hawliau tramwy cyhoeddus er mwyn gweithredu'r diwygiad a chefnogi ei fwriad polisi. Mae'r materion i'w hystyried yn cynnwys gorchmynion cyfreithiol nas gweithredwyd, gwaith diffinio lled llwybrau, cyfyngiadau cyfreithiol, adeileddau, ac awdurdodiadau Adran 147 ar lwybrau.

### Seilwaith

## Arwynebau

Nid yw'r gofyniad i wneud gwaith cynnal a chadw ar hawliau tramwy cyhoeddus wedi'i ddiffinio drwy statud. Nid yw'r gyfraith gyffredin yn pennu cysylltiad rhwng y ddyletswydd â math penodol o ddefnyddiwr, ond yn hytrach mae'n ei disgrifio trwy gyfeirio at draffig cyffredin y gymdogaeth.  Os bydd cynnig diwygio statudol yn ceisio addasu'r hyn a olygir gan draffig cyffredin, gellid disgwyl y byddai'r ddyletswydd cynnal a chadw yn newid o dan y gyfraith gyffredin yn unol â hynny. Byddai angen i'r ddeddfwriaeth ddiwygio ystyried y mater hwn a darparu eglurder cyfreithiol. Beth bynnag, lle defnyddir llwybrau troed gan feicwyr a marchogwyr ceffylau, mae'n anochel y bydd hynny'n achosi problemau ychwanegol ynghylch arwynebau llwybrau troed yn benodol, a fydd yn gosod mwy o bwysau ar awdurdodau lleol i sicrhau bod llwybrau troed yn parhau i fod yn addas ar gyfer cerddwyr.

Roedd y grŵp o'r farn, lle byddai'r newid hawliau'n berthnasol i bob llwybr troed, mae'n anochel y bydd cynnydd yn nisgwyliadau defnyddwyr hawliau bod pob llwybr ar gael, a bydd pwysau ar awdurdodau lleol i wella arwynebau er mwyn darparu ar gyfer pob defnyddiwr. Ar hyn o bryd, mae arwynebau llwybrau troed yn dueddol o weddu â chymeriad y dirwedd gyfagos, a gallai'r cynnig hwn arwain at gyflwyno arwynebau y câi eu hystyried yn amhriodol fel arfer, megis tarmac ar lwybr gwledig.

Cafwyd cydnabyddiaeth y gellid cael canlyniadau cadarnhaol a negyddol o ganlyniad i wella arwyneb llwybrau, yn enwedig o safbwynt y posibilrwydd o wella mynediad ar gyfer y bobl hynny ag anawsterau symudedd. Fodd bynnag, amlygwyd hefyd y gallai erydu llwybrau o ganlyniad i ddefnydd hawliau uwch arwain at leihau hygyrchedd llwybrau troed i gerddwyr a phobl ag anawsterau symudedd, a lleihau eu mwynhad ohonynt.

Cafwyd pryder hefyd y gallai cymhwyso safonau aml-lwybr i bob llwybr arwain at drosglwyddo atebolrwydd am eu cynnal a'u cadw o dimau cefn gwlad i adrannau priffyrdd a fyddai'n dilyn dull gwahanol, na fyddai bob amser efallai'n ystyried cyd-destun y dirwedd a chydberthnasau â thirfeddianwyr fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae ewyllys da tirfeddianwyr, yn benodol, yn hanfodol bwysig i'r gwaith o reoli hawliau tramwy cyhoeddus.

## Gatiau a chamfeydd

Cafwyd pryder na fyddai dilyn dull o gymhwyso newid hawliau i bob llwybr troed yn ystyried addasrwydd llwybrau troed gwahanol mewn perthynas â chyfyngiadau, fel gatiau a chamfeydd. Bydd cyfyngiadau amlwg o safbwynt pa lwybrau fydd yn addas, a bydd angen i'r diwygiad fod yn glir ynghylch p'un a fydd yn ofynnol i awdurdodau lleol uwchraddio nodweddion o'r fath er mwyn darparu ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch. Gallai cyflwyno seilwaith ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch gael effeithiau anffafriol ar gerddwyr, er enghraifft ble mae llwybr yn gul neu'n serth. Teimlodd rhai aelodau o'r grŵp y gall fod goblygiadau hefyd o safbwynt y Safon Brydeinig ar gyfer adeileddau ar hawliau tramwy cyhoeddus (BS 5709).

Nodwyd pryder ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am ailosod a chynnal seilwaith er mwyn hwyluso defnydd hawliau uwch, ai'r awdurdod lleol ynteu'r tirfeddiannwr.

## Materion cysylltiedig

Codwyd yr angen i ddarparu ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch drwy seilwaith cysylltiedig, gan gynnwys darparu mannau parcio, yn enwedig ar gyfer wagenni ceffylau. Gall darparu mannau parcio ar gyfer cael mynediad i hawliau tramwy fod yn anodd mewn rhai lleoliadau, a gallai defnydd cynyddol ddwysáu'r sefyllfa hon. Cafwyd trafodaeth ynghylch y ffaith y dylid ailystyried hawliau datblygu a ganiateir er mwyn hwyluso'r posibilrwydd o ddarparu cyfleusterau a gysylltir â defnydd hawliau uwch, fel mannau parcio a mannau golchi beiciau, er mwyn ei gwneud yn bosibl i dirfeddianwyr gael rhywfaint o fudd o'r newidiadau arfaethedig.

Mewn rhai ardaloedd, ceir cytundebau rheoli effeithiol â defnyddwyr hawliau uwch ar hyn o bryd sy'n eu caniatáu i ddefnyddio llwybrau troed mewn mannau poblogaidd. Mae hyn yn hwyluso cysylltedd gwell ar gyfer rhwydweithiau hawliau uwch ac yn golygu y gellir lleihau effaith beicwyr ar arwynebau cymaint â phosibl, gan sicrhau y gall pawb fwynhau'r llwybrau, ac mae hyn wedi gweithio'n dda ers sawl blwyddyn. Efallai y byddai angen ailystyried cytundebau o'r fath pe câi hawliau uwch eu cymhwyso i bob llwybr troed cyhoeddus mewn modd cyffredinol.

**Materion allweddol:**

4. Sut y dylid rheoli ac ymdrin â'r gofynion ar adnoddau awdurdodau priffyrdd lleol a rhanddeiliaid eraill (fel sicrhau adnoddau digonol yn wyneb y cynnydd tebygol yn y gofynion ynghylch materion cyfreithiol ar lwybrau troed, a'r gwaith o'u cynnal a'u cadw a'u gwella), o ganlyniad i'r newidiadau i hawliau a chyfrifoldebau?
5. Sut y dylai'r diwygiad ystyried effaith y newidiadau ar lwybrau troed a hyrwyddir sydd eisoes yn bodoli?
6. Pa bwerau fydd angen ar awdurdodau priffyrdd lleol eu cael er mwyn cynnal neu wella llwybrau troed ar gyfer defnyddwyr o ganlyniad i Ddiwygiad 2A? A ddylid diffinio'r ddyletswydd i gynnal a chadw llwybr troed cyhoeddus mewn unrhyw ddeddfwriaeth newydd, ac os felly, sut?
7. Sut y dylai'r newidiadau sy'n deillio o Ddiwygiad 2A ystyried y newidiadau arfaethedig a geir yn niwygiadau eraill y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, e.e. o ran gwaith cynllunio mynediad?
8. A fydd Diwygiad 2A yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth mewn perthynas ag adeileddau ar hawliau tramwy cyhoeddus er mwyn sicrhau y bodlonir bwriad polisi'r diwygiad? Ar yr un pryd, beth yw'r ffordd orau o sicrhau y daw'r rhwydwaith yn fwy hygyrch i fwy o ddefnyddwyr, a sicrhau na fydd yn lleihau hygyrchedd i rai grwpiau o'r cyhoedd yn sylweddol? Sut y caiff adeileddau/nodweddion hanesyddol eu gwarchod a'u cadw?
9. Pa ddarpariaethau cyfreithiol a darpariaethau eraill y bydd eu hangen i'w gwneud yn bosibl darparu cyfleusterau cysylltiedig (fel meysydd parcio) lle bo'n briodol, yn enwedig ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch?

### Effeithiau

## Rhyngweithiad defnyddwyr

Cafwyd cytundeb cyffredinol y bydd y diwygiad hwn yn cyflwyno angen i bobl ddeall eu hawliau a chyfrifoldebau newydd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut i gyfleu gwybodaeth am ymddygiadau cyfrifol, a chael dylanwad arnynt, ac weithiau eu gorfodi. Er efallai bod ymchwil yn awgrymu bod yr ofn y ceir gwrthdaro ymhlith defnyddwyr yn fwy na'r achosion gwirioneddol ohono, ceir canfyddiad o hyd y gallai cerddwyr brofi bygythiad neu niwed gwirioneddol o ganlyniad i ddefnydd hawliau uwch ar lwybrau troed. Bydd angen i ddefnyddwyr fod yn ymwybodol o gyflymderau addas a phryd i ildio i ddefnyddwyr eraill, yn enwedig defnyddwyr sy'n agored i niwed, fel plant ifanc, hen bobl, a phobl â phroblemau symudedd.

Mae pwysau o weithgareddau hamdden yn newid yn gyflym, yn enwedig o ran y defnydd a wneir o dechnoleg i hyrwyddo llwybrau, fel Strava a'r cyfryngau cymdeithasol, a cheir posibilrwydd gwirioneddol y gallai beicwyr mynydd sy'n disgyn i lawr allt yn gyflym leihau ansawdd profiadau cerddwyr.

Codwyd y cwestiwn ynghylch defnyddio e-feiciau. Mae'r rhain yn dod yn gynyddol boblogaidd, a dylid ystyried, o safbwynt sut mae beic wedi'i ddiffinio yn y ddeddfwriaeth bresennol, p'un a ddylid eithrio e-feiciau o'r diwygiad hwn. Codwyd materion tebyg ar gyfer Diwygiad 1A, a byddai angen sicrhau bod y gwaith o weithredu'r ddau ddiwygiad wedi'i gydlynu. Byddai angen hefyd bod yn ofalus na

fyddai'r diwygiadau'n arwain at hwyluso mwy o fynediad i ddefnyddwyr cerbydau sydd wedi'u pweru'n fecanyddol ar y rhwydwaith llwybrau troed cyhoeddus.

## Rheoli llwybrau

Amlygwyd bod ewyllys da tirfeddianwyr yn rhan allweddol o waith rheoli hawliau tramwy. Dylai'r dull diwygio ystyried hefyd sut i'w gwneud yn bosibl cynnwys gwelliannau i lwybrau troed mewn unrhyw gynllun taliadau amaeth-amgylcheddol newydd. Dylai'r dull diwygio ystyried y rhan y gallai fforymau mynediad lleol a Chynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (neu'r hyn y byddai'n eu disodli o dan Ddiwygiad 3B) ei chwarae yn y gwaith o weithredu a rheoli rhwydweithiau mynediad hawliau uwch lleol. Fodd bynnag, dylid nodi ei bod eisoes yn bosibl cyflwyno hawliau uwch ar lwybrau, er bod hynny'n ddibynnol ar ewyllys da'r tirfeddiannwr yn gyffredinol.

## Effeithiau ar safleoedd sensitif a dynodiadau

Byddai angen ystyried yr effeithiau ar safleoedd sensitif a dynodiadau, fesul achos. Byddai angen cynnal asesiad o'r effeithiau presennol a achosir gan gerddwyr, a'r effaith ychwanegol debygol y byddai marchogwyr ceffylau a beicwyr yn ei chael. Byddai angen i unrhyw ddull gynnwys mecanwaith ar gyfer cyflwyno cyfyngiadau i lwybrau yr asesir eu bod yn anaddas, e.e. oherwydd eu cyflwr, eu lleoliad, neu oherwydd yr effaith a geir ar safleoedd sensitif.

Bydd yn anodd asesu effeithiau ar safleoedd sensitif, gan na fydd y niferoedd yn hysbys. Fodd bynnag, bydd angen i'r diwygiadau ddarparu ar gyfer ei gwneud yn bosibl rheoli effeithiau ar safleoedd sensitif heb wahardd hawliau uwch yn gyfan gwbl. Cafwyd pryderon hefyd ynghylch y tebygrwydd y bydd angen cynyddol i allu rheoli effeithiau gweithgarwch a digwyddiadau masnachol gan ddefnyddwyr hawliau uwch ar lwybrau troed. Ar hyn o bryd, nid yn aml yr ymgynghorir ag awdurdodau lleol a thirfeddianwyr pan gynhelir digwyddiadau, er enghraifft digwyddiadau rhedeg ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, lle gallai nifer uchel o bobl fod yn defnyddio'r llwybr ar y tro gyda bach iawn o ystyriaeth o safbwynt defnyddwyr eraill.

**Materion allweddol:**

10. Sut y dylai'r diwygiad ddarparu ar gyfer iechyd a diogelwch defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill?
11. Sut y gellir hyrwyddo a dylanwadu ar ymddygiadau cyfrifol wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, a'u gorfodi lle bo angen? Sut y gallai'r canllaw/fframwaith hwn ar gyfer hybu ymddygiad cyfrifol fod yn ddigon ymaddasol i gadw'n gyfoes â newidiadau ym maes hamdden, ac yn ddigon effeithiol i fod yn offeryn defnyddiol ar gyfer rheoli ymwelwyr?
12. Sut caiff effeithiau cymharol defnydd hawliau uwch eu hasesu, ac a fyddai'r effaith a berir gan rai mathau o ddefnyddwyr yn golygu na ddylid eu cynnwys yn y newidiadau arfaethedig? Er enghraifft, beiciau trydan?
13. Fel rhan o Ddiwygiad 2A, pa newidiadau, os o gwbl, sydd angen eu gwneud i ddyletswyddau a phwerau sydd eisoes yn bodoli er mwyn diogelu cadwraeth natur, treftadaeth, a safleoedd sensitif eraill, lle bo'n ofynnol, rhag yr effeithiau sy'n deillio o arfer hawliau newydd?

## Materion rheoli tir

Mae gan dirfeddianwyr lawer o bryderon ynghylch cyflwyno cynnydd mewn hawliau mynediad uwch ar draws y rhwydwaith cyfan.

Petaent yn cael eu cynyddu yn ôl y dull hwn, maent yn teimlo y bydd mwy o bwysau arnynt i ailosod gatiau a chamfeydd er mwyn hwyluso mynediad ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch. Gallai hyn arwain at y canlynol, yn ei dro:

- Cynnydd mewn achosion o weithgareddau anghyfreithlon – bydd gatiau sy'n hwyluso mynediad i farchogwyr ceffylau a beicwyr yn ei gwneud yn haws i gerbydau oddi ar y ffordd (yn enwedig beiciau modur) gael mynediad i'w tir. Gallai hyn gynyddu gweithgareddau fel tipio anghyfreithlon neu sgrialu, gan arwain at leihau llonyddwch, cyfyngu ar fwynhad defnyddwyr cyfreithlon o gefn gwlad, a difrod i fywyd gwyllt a safleoedd hanesyddol. Nododd safbwyntiau y byddai angen cynnal asesiad, fesul achos, o bob safle sensitif er mwyn asesu'r effaith.
- Cynnydd mewn achosion o fandaliaeth – pe byddai defnyddwyr hawliau uwch yn dod ar draws rhwystr fel gât neu gamfa rhyw hanner ffordd ar hyd eu taith, gallent geisio'i dynnu i ffwrdd neu dorri trwy ffens gyfagos er mwyn mynd heibio iddo. Gallai hyn gael effaith ddifrifol ar waith rheoli stoc.
- Pe na châi gatiau addas eu gosod (sy'n cau eu hunain), byddai'n fwy tebygol y câi gatiau eu gadael ar agor, gan arwain at broblemau wrth reoli stoc, er enghraifft stoc yn dianc neu'n cymysgu. Gallai hyn arwain at broblemau difrifol o safbwynt bioddiogelwch ar y terfyn rhwng ffermydd, ac effeithiau economaidd os caiff hyrddod gyfle i gymysgu â mamogiaid, er enghraifft.

Gallai'r effeithiau ar fusnesau ffermio, yn benodol, fod yn sylweddol, a gallai effeithiau economaidd gynnwys y canlynol:

- Costau yswiriant uwch i'r tirfeddiannwr o ganlyniad i'r ffaith y byddai mwy o bobl yn croesi ei dir, a chynnydd posibl / a ganfyddir mewn achosion o fandaliaeth a lladrata.
- Cynnydd yn yr angen i atgyweirio a/neu ailosod ffensys, camfeydd a gatiau os bydd defnyddwyr yn eu difrodi.
- Difrod i arwynebau llwybrau troed a allai gael effaith ar arferion ffermio. Gellid hefyd gweld cynnydd yn arwynebedd y tir y câi llwybr troed effaith arno. Er enghraifft, lle bo llwybr yn croesi cae, pennir bod angen iddo fod â lled o un metr ar hyn o bryd. Pe byddai llwybr o'r fath yn dod yn fwdlyd o ganlyniad i ddefnydd cynyddol ohono gan farchogwyr ceffylau neu feicwyr, a'i fod yn rhwystro cerddwyr, gallai defnyddwyr ledu'r llwybr wrth iddynt geisio dod o hyd i ffordd hwylusach. Dros amser, gallai lled llwybr un metr gynyddu i ddau neu dri metr, gan gael effaith ar addasrwydd cae ar gyfer plannu cnydau.
- Gallai ffermwyr fod mewn sefyllfa lle maent yn mynd yn groes i ofynion cynllun/traws-gydymffurfiaeth y byddai'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw er mwyn derbyn eu taliadau fferm. Er enghraifft, gallai defnydd hawliau uwch cynyddol arwain at fwy o erydu pridd, neu ddŵr ffo yn mynd i gyrsiau dŵr, gan leihau ansawdd dŵr, y byddai'n arwain at gosbau i'r ffermwr.
- Bydd y modd y caiff hawliau uwch eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth yn pennu'r sylfaen reoliadol a ph'un a ellir talu ffermwyr am unrhyw welliannau y maent

yn eu gwneud i ansawdd y mynediad ar draws eu ffermydd. Ar hyn o bryd, dim ond mynediad drwy ganiatâd sy'n gymwys ar gyfer taliadau o dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol ar gyfer rheswm o'r math hwn.
- Gallai'r perygl fod stoc yn cymysgu beri cynnydd yn y risgiau i fioddiogelwch, a cheid risg hefyd gan farchogwyr ceffylau o ganlyniad iddynt gael mynediad i dir nad oes modd iddynt gael mynediad iddo ar hyn o bryd, yn enwedig lle bo'r rheolwr/tirfeddiannwr yn cadw ceffylau. Gallai hyn hefyd gyflwyno problem iechyd a diogelwch os yw meirch yn bresennol.

Byddai'n rhaid i reolwyr tir osod arwyddion yn ofalus er mwyn dangos y gwahaniaeth rhwng hawliau tramwy statudol a mynediad caniataol gan fod statws y defnyddiwr yn wahanol mewn perthynas â'r olaf – hynny yw, ei fod yn unigolyn a wahoddir i ddefnyddio'r tir yn hytrach na defnyddiwr hawl dramwy gyhoeddus, ac felly mae atebolrwydd y tirfeddiannwr yn fwy. Os cyflwynir hawliau uwch, mae'n bosibl na fydd tirfeddiannwr yn fodlon ar 'wahodd' y defnyddwyr hyn i ddefnyddio'i dir. Gallai hyn arwain at dynnu hawliau mynediad caniataol mewn rhai achosion.

Gellid defnyddio unrhyw newidiadau arfaethedig fel cyfle i fynd i'r afael â sefyllfaoedd lle bo angen cynnal asesiadau o systemau draenio cynaliadwy ar gyfer unrhyw asesiadau o welliannau i arwynebau lwybrau troed cyhoeddus, sy'n rhywbeth sy'n dod yn rhwystr diangen i waith cynnal a chadw, yn enwedig ar lwybrau gwledig.

Mae'n bosibl hefyd y ceir cyfle i newid gorchmynion llwybrau cyhoeddus er mwyn ei gwneud yn bosibl cyflwyno mwy o bwerau i ddargyfeirio llwybrau troed o ganlyniad i'r effeithiau a ddaw yn sgil defnydd hawliau uwch.

**Materion allweddol:**

14. Sut y caiff yr hawliau a gyflwynir eu cyfyngu, neu eu gwahardd? Dylai hyn ystyried sut i reoli defnydd, a sut i osgoi, neu liniaru yn erbyn, yr effeithiau canlynol ar hawliau tramwy cyhoeddus, tir, neu fuddiannau eraill, wrth ddiogelu hawliau'r cyhoedd.

## Costau/adnoddau

Codwyd pryderon ynghylch yr atebolrwydd a ddeuai o ganlyniad i gynyddu'r hawliau mynediad i lwybrau troed. Roedd yr atebolrwydd hwn yn cynnwys:

- Dyletswyddau a phwerau ar gyfer awdurdodau lleol – sut fyddai'r rhain yn newid, ac a gâi unrhyw newidiadau adnoddau digonol?
- Pwy fyddai'n gyfrifol am y gwaith o gyflwyno'r hawliau newydd? Sut y câi costau staff ychwanegol eu talu?
- Pwy fyddai'n gyfrifol am y gwelliannau ar lawr gwlad? A fyddai hyn yn dod o dan gyfrifoldeb yr awdurdod lleol neu gyfrifoldeb tirfeddianwyr unigol?
- Sut y gellid sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer diwallu'r angen ar gyfer arwyddion newydd? Defnyddir lliwiau a chyfeirbwyntiau gwahanol ar hyn o bryd er mwyn gwahaniaethu rhwng llwybrau troed a llwybrau ceffylau, er enghraifft.
- Pwy fyddai'n gyfrifol am ddarparu'r cyfleusterau ychwanegol gofynnol i ddarparu ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch (mannau parcio ychwanegol ac ati)?

Nodwyd y gallai fod gwaith ychwanegol sylweddol o flaen awdurdodau lleol mewn perthynas â'r cynnydd mewn hawliau. Byddai'r gwaith hwn yn cynnwys y canlynol:

- Y gost wirioneddol o uwchraddio'r rhwydwaith – er bod bwriad y polisi wedi nodi na châi'r gwaith hwn ei gynnwys fel dyletswydd, byddai'r pwysau anochel gan ddefnyddwyr yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu. Gallai hyn, ynghyd â'r ddyletswydd i gynnal llwybrau i safon addas ar gyfer cerddwyr, arwain at gynnydd sylweddol yn y llwyth gwaith ar adeg pan fo adnoddau'n parhau i gael eu torri'n ôl o ganlyniad i golli cynlluniau ariannu, fel y Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.
- Darparu gwybodaeth am lwybrau addas. Er y bydd yn ofynnol i ddefnyddwyr eu hunain asesu pa mor addas yw llwybr, bydd angen bod hynny'n seiliedig ar wybodaeth o rywle, a theimlwyd ei bod yn anochel y bydd yn dod o dan gyfrifoldeb yr awdurdod lleol. Bydd angen hefyd gwneud gwaith mapio, darparu arweiniad, a chodi arwyddion ymhlith llu o bethau eraill.
- Bydd angen ystyried materion gorfodi a chydymffurfiaeth ychwanegol er mwyn diogelu'r rhwydwaith a'i gwneud yn bosibl cyflwyno defnydd hawliau uwch lle bo hynny'n addas.
- Mae'n debygol y bydd angen hefyd ymdrin â'r ôl-groniadau o faterion cyfreithiol presennol, yn enwedig mewn perthynas â gorchmynion addasu mapiau diffiniol a gorchmynion llwybr cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod cofnodion yn gyfredol. Byddai hyn yn gofyn am staff ychwanegol, yn enwedig mewn adrannau cyfreithiol, a châi hyn effaith ar y llwyth gwaith cyfredol – byddai gwaith arall yn dioddef. Mae'r mater o ariannu gwelliannau i hawliau tramwy yn aml yn canolbwyntio ar welliannau cyfalaf pan mai'r flaenoriaeth allweddol wirioneddol, i lawer o awdurdodau, yw cael staff ychwanegol (costau refeniw) er mwyn ei gwneud yn bosibl cyflawni gwaith.

Mae awdurdodau lleol eisoes yn teimlo'u bod o dan bwysau i wella mynediad i feicwyr a marchogwyr ceffylau. Drwy gyflwyno hawliau uwch i lwybrau troed, roeddent yn teimlo y byddai'r pwysau hyn yn cynyddu wrth i ddefnyddwyr fynnu bod gwelliannau'n digwydd er mwyn iddynt allu arfer eu hawliau mynediad newydd.

**Materion allweddol:**

15. Sut y dylai'r ddeddfwriaeth amlinellu'r rolau a chyfrifoldebau ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol a rheolwyr tir? Dylai'r materion i'w hystyried gynnwys atebolrwydd, gwaith cynnal a chadw, arwyddion, awdurdodi a darparu adeileddau ar lwybrau troed cyhoeddus, ac unrhyw gyfleusterau cysylltiedig.
16. Sut y gall Diwygiad 2A sicrhau cydnawsedd â pholisïau a rhaglenni rheoli tir a fydd yn disodli Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE?
17. Sut y dylai'r diwygiad fynd i'r afael â'r newidiadau tebygol yn y galw mewn perthynas â dyletswyddau awdurdodau lleol i gofnodi hawliau tramwy cyhoeddus, a'r gwaith gweinyddol a diogelu cysylltiedig?

# Gwybodaeth

Bydd darparu gwybodaeth yn allweddol i lwyddiant unrhyw gynnydd mewn hawliau mynediad, boed y rheiny'n hawliau a gymhwysir trwy ddull cyffredinol neu ddull mwy detholus. Bydd angen i ddefnyddwyr ddod o hyd i wybodaeth ynghylch pa lwybrau sydd ar gael iddynt cyn iddynt eu defnyddio.

Gellir dosbarthu gwybodaeth i ddau gategori:

- Gwybodaeth am ble i fynd
- Gwybodaeth am sut i ymddwyn

## Ble i fynd

Teimlwyd y byddai angen i ddefnyddwyr allu dod o hyd i wybodaeth am lwybrau unigol er mwyn penderfynu a ydynt yn addas ar gyfer eu defnyddio, gan gynnwys trywydd y llwybr, cyflwr yr arwyneb, a chelfi sy’n eu rhwystro rhag ei ddefnyddio, fel camfeydd a gatiau anaddas, fel y byddent yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am lwybr ymlaen llaw. Byddai peidio â gallu gwneud hyn yn arwain at rwystredigaeth, dryswch, a gwrthdaro posibl rhwng gwahanol fathau o ddefnyddwyr a rhwng defnyddwyr a thirfeddianwyr. Nid yw'r lefel hon o wybodaeth ar gael yn gyson ar draws y rhwydwaith ar hyn o bryd, a byddai'n ddwys iawn o ran costau ac amser i'w choladu ar y lefel hon. Cafwyd pryder hefyd ynghylch manwl gywirdeb cofnodion y mapiau diffiniol a fydd, yn y pen draw, yn darparu'r wybodaeth ar gyfer y llwybrau troed wedi'u mapio, a phryder hefyd am allu awdurdodau, a'r adnoddau sydd ganddynt, i wella a diweddaru eu mapiau, ynghyd â natur feichus y gweithdrefnau ar gyfer gwneud hynny.

Byddai angen hefyd sicrhau bod y newidiadau i hawliau'n cael eu cyfleu i reolwyr tir, a sefydliadau eraill sy'n hyrwyddo llwybrau ar draws eu tir neu mewn rhannau penodol o Gymru. Gallai rhai o'r llwybrau hyn fod yn gymysgedd o hawliau tramwy a llwybrau mynediad trwy ganiatâd, a allai gael goblygiadau i ddefnyddwyr hawliau uwch, a gallai rhai rheolwyr tir ddewis rhoi'r gorau i hyrwyddo rhai o'r llwybrau hyn os oeddent o'r farn fod dryswch yn bosibl neu fod y llwybr yn anaddas ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch.

Yn aml, nid oes gwybodaeth ar gael ar lawr gwlad er mwyn i ddefnyddiwr allu adnabod y gwahaniaeth rhwng hawl dramwy statudol a llwybr â mynediad drwy ganiatâd. Mewn achos lle na fyddai tirfeddiannwr am gymhwyso hawliau uwch i lwybr â mynediad drwy ganiatâd, byddai angen i hynny gael ei awdurdodi'n briodol, ond mae'n anochel y ceid achosion lle byddai defnyddiwr hawliau uwch yn meddwl bod ganddo'r hawl i ddefnyddio llwybr pan na fyddai caniatâd iddo wneud hynny mewn gwirionedd.

Byddai angen gwybodaeth am faterion trawsffiniol hefyd.

Byddai'n ofynnol cael gweithdrefn eithrio er mwyn eithrio llwybrau o'r broses hawliau uwch, a byddai angen ei chyfleu i'r cyhoedd yn dda. Mae gorchmynion rheoleiddio traffig yn darparu rhywfaint o bwerau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, teimlwyd y gallai ceisiadau am orchmynion o'r fath gynyddu'n sylweddol oni chyflwynir gweithdrefn eithrio bwrpasol, ac mae angen ystyried a yw'r weithdrefn bresennol yn addas i'r pwrpas.

Byddai angen cynnal ymgyrch gwybodaeth er mwyn rhoi arweiniad i bobl yng Nghymru, ac ymwelwyr o Loegr a'r tu hwnt, ynghylch eu hawliau yng Nghymru.

Gellid ystyried bod hwn yn bwynt gwerthu ar gyfer twristiaeth yng Nghymru a gallai ddenu mwy o ymwelwyr i gefn gwlad Cymru.

## Gwybodaeth am sut i ymddwyn

Byddai angen cyflwyno proses ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch hawliau a chyfrifoldebau ar gyfer darpar ddefnyddwyr o'r rhwydwaith. Ceir nifer o enghreifftiau o ymgyrchoedd a chodau ymddygiad llwyddiannus y gellid eu harchwilio o safbwynt arfer da, gan gynnwys y canlynol:

- Cod Ymddygiad yr Alban
- Ymgyrch Cymdeithas Ceffylau Prydain 'Be Nice, Say Hi'
- Yr ymgyrch 'Share the Space, Drop the Pace' mewn perthynas â'r defnydd deuol a wneir ar lwybrau camlesi gan gerddwyr a beicwyr

Teimlwyd bod cyfathrebu'n allweddol ar gyfer lleihau unrhyw wrthdaro posibl rhwng defnyddwyr.

**Materion allweddol:**

18. Pa wybodaeth allweddol fydd ei hangen ar gyfer rhanddeiliaid gwahanol? Gallai hyn gynnwys gwybodaeth mapio, gwybodaeth am hygyrchedd llwybrau troed ar gyfer beicwyr a marchogwyr ceffylau, gwybodaeth ac arwyddion ar lawr gwlad, ac arweiniad. Pa newidiadau, os o gwbl, y bydd yn ofynnol er mwyn ei darparu?
19. Sut y caiff gwybodaeth am y newidiadau i hawliau a chyfrifoldebau o ganlyniad i'r newid deddfwriaethol ei chyfleu i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys ymwelwyr?
20. Sut y dylid hysbysu 'defnyddwyr hawliau uwch' am argaeledd ac addasrwydd y rhwydwaith ffisegol (gan gynnwys adeileddau ac arwynebau), a'r dull a ddilynir i'w wella yn y dyfodol er mwyn diwallu eu hanghenion?
21. Pa effaith y caiff newidiadau ar lwybrau cerdded caniataol sydd â chysylltiad â llwybrau troed cyhoeddus, neu sydd wedi'u hintegreiddio â nhw [gan gynnwys llwybrau a hyrwyddir], a sut y dylid rheoli hyn?
22. Sut y dylid cyfleu'r newidiadau canlynol i hawliau'r cyhoedd, o'u cymharu â Lloegr, i bobl yng Nghymru ac ymwelwyr iddi, gan gynnwys gwybodaeth ar lawr gwlad ar gyfer mynediad cyhoeddus trawsffiniol?

## Pethau eraill i'w hystyried

Ceir materion trawsbynciol y bydd angen eu hystyried ynghylch sut i sicrhau bod y newidiadau sy'n deillio o Ddiwygiad 1A a Diwygiad 2A yn cydgysylltu mynediad cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr, ac yn ei integreiddio, fel yn achos darparu'r canlynol:

- adeileddau hygyrch
- gwybodaeth ac arwyddion ar lawr gwlad
- gwaith cynllunio a mapio mynediad integredig
- cydnawsedd trefniadau gwahardd a chyfyngu
- newidiadau i hawliau tramwy cyhoeddus o ganlyniad i orchmynion llwybr cyhoeddus / gorchmynion addasu mapiau diffiniol

# Diwygiad 2B – Darpariaeth dros dro i hwyluso cau hawliau tramwy cyhoeddus am gyfnodau byr a gwaith rheoli stoc arnynt

Gwella prosesau a lleihau'r pwysau sy'n gysylltiedig â darpariaethau dros dro i gau llwybrau troed cyhoeddus a llwybrau ceffylau yn y tymor byr a hwyluso rheolaethau stoc. At hynny, caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran rheoli stoc ar hawliau tramwy cyhoeddus ac yn gyfagos iddynt wrth wneud y rhwydwaith yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

At ddibenion trafod, rhannwyd y diwygiad hwn yn ddwy ran fel a ganlyn:

- Cau llwybrau dros dro
- Rheoli stoc

Ar gyfer pob rhan, gofynnwyd i grwpiau ystyried y tri chwestiwn canlynol:

- Pam mae angen y mesur hwn?
- Beth y dylai ei gynnwys?
- Beth fyddai'r goblygiadau?

### Cau llwybrau dros dro

## Pam?

Gallai system newydd ar gyfer cyflwyno cyfyngiadau i lwybrau, eu dargyfeirio neu eu cau am gyfnodau byr (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel cau llwybrau dros dro) helpu i leihau'r pwysau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r system bresennol, fel y gost ac amser sydd ynghlwm wrth hysbysebu mewn papur newydd lleol, yn enwedig lle bo nifer y papurau newydd lleol yn lleihau. Gallai system newydd hefyd ei gwneud yn haws i reolwyr tir wneud cais i gau llwybr dros dro.

Er bod darpariaethau sydd eisoes yn bodoli, nodwyd nifer o resymau lle gallai fod yn ddefnyddiol ymestyn y gallu i wneud cais i gau llwybr dros dro. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Estyniad posibl o'r rhesymau amgylcheddol dros gau llwybr dros dro, fel yn achos adar sy'n nythu / tymhorau bridio, er mwyn sicrhau bod modd eu cymhwyso i fwy o ardaloedd
- Rhesymau rheoli tir eraill, fel chwistrellu cnydau
- Saethu adar hela neu er mwyn rheoli plâu

## Beth?

Byddai angen i unrhyw system newydd fod yn seiliedig ar fynediad lleiaf rhwystrol, a bod yn dryloyw, gyda rhesymau dros gau a ddiffinnir yn glir, a byddai'n rhaid iddi gynnwys gofyniad i gyflwyno tystiolaeth o'r angen i gau'r llwybr. Dylai gynnwys proses ymgynghori sy'n briodol i'r rheswm dros gau'r llwybr, a dylai gynnwys terfynau amser clir o ran hyd y cyfnod cau a ganiateir.

Gallai system newydd o'r fath ei gwneud yn bosibl i awdurdodau lleol gau hawliau tramwy cyhoeddus am gyfnod hwy er mwyn darparu ar gyfer gwaith datblygu tir. Mae'r system gyfredol yn darparu ar gyfer chwe mis. Os yw'n ofynnol cau llwybr am gyfnod hwy, mae angen cael caniatâd gan Lywodraeth Cymru.

Gellid cynnwys dull hyblyg yn unol â hyd y cyfnod cau gofynnol, er enghraifft. Gellid hefyd sicrhau y ceir llai o allu i herio'r penderfyniad i gau llwybr os yw'n cyd-fynd â dargyfeiriad cysylltiedig. Byddai angen hefyd cael eglurhad o'r atebolrwydd os yw hawl dramwy gyhoeddus wedi'i chau a bod aelod o'r cyhoedd yn ei defnyddio.

## Goblygiadau

Gallai system newydd symleiddio'r weithdrefn ar gyfer pawb. Byddai hynny'n wir, yn benodol, yn achos hysbysebu, a fyddai'n haws ac yn rhatach ar gyfer awdurdodau lleol. Fodd bynnag, byddai angen ar awdurdodau lleol gael adnoddau ychwanegol er mwyn rheoli system newydd. Bydd cyflwyno proses ymgeisio symlach, a mwy o resymau y gellir cau llwybr, yn debygol o arwain at gynnydd yn nifer y ceisiadau ac yn cael effaith ar hawliau'r cyhoedd. Byddai angen cynnwys proses ymgynghori. Gallai prosesau ystyried sut i ddarparu ar gyfer digwyddiadau blynyddol, fel adar yn nythu neu'r cyfnod wyna, ac yna gellid ystyried rhoi caniatâd o ddwy neu dair blynedd o hyd, am nifer benodol o ddyddiau.

Byddai angen ystyried effaith cau llwybr. Dylid ei gwneud yn ofynnol darparu dargyfeiriad pan nad oes llwybr amgen addas ar gael, oherwydd trwy beidio â threfnu dargyfeiriad, gallai cau un llwybr arwain at gau rhwydwaith cyfan o lwybrau, i bob pwrpas.

Ar hyn o bryd, ac i raddau helaeth, rheolir y broses o gau llwybrau drwy orchmynion rheoleiddio traffig fel rhan o ddeddfwriaeth traffig ffordd, ac mae'r gweithdrefnau hyn yn gymwys i'r rhwydwaith priffyrdd cyfan (er y gwahaniaethir y modd y cânt eu cymhwyso rhwng hawliau tramwy cyhoeddus a phriffyrdd â statws uwch). Yn wahanol i ddeddfwriaeth hawliau tramwy cyhoeddus, nid yw deddfwriaeth traffig ffordd [arall] wedi'i datganoli a byddai angen sicrhau ei bod yn glir bod unrhyw newid a wnaed i orchmynion rheoleiddio traffig ond yn gymwys i hawliau tramwy cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, gallai gwahanu elfen o reoli hawliau tramwy cyhoeddus oddi wrth y system rheoli priffyrdd gael effaith ar gydberthnasau rhwng timau ac arwain at weithio mewn seilos.

Gallai'r gallu i gau hawliau tramwy cyhoeddus dros dro arwain at y canlyniad anfwriadol o gau ardaloedd o dir mynediad agored o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Ar hyn o bryd, nid yw unrhyw waharddiad neu gyfyngiad ar dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn gymwys i hawliau tramwy cyhoeddus, gan olygu bod mynediad cyhoeddus ar draws tir mynediad, a thrwyddo, yn parhau. Fodd bynnag, byddai hyn yn newid pe byddai’n haws cau hawliau tramwy cyhoeddus ar y cyd â gwaharddiadau a chyfyngiadau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Byddai angen sicrhau bod cyfrwng clir ar gyfer cyfleu gwybodaeth am gau llwybrau dros dro i aelodau'r cyhoedd fel eu bod yn gwybod ble i edrych er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y llwybrau a gaewyd cyn iddynt gychwyn ar eu taith. Byddai angen hefyd cynnal ymgyrch cyhoeddusrwydd er mwyn sicrhau bod pob defnyddiwr a rhanddeiliad yn deall sut roedd y system yn gweithio a ble i ddod o hyd i wybodaeth.

Teimlwyd, er y gallai hwn fod yn offeryn da ar gyfer rheolwyr tir, y gallai fod yn well cyflwyno system dreialu yn y lle cyntaf er mwyn asesu effeithiau a goblygiadau cyn ei gyflwyno dros Gymru gyfan.

**Materion allweddol:**

23. Pa resymau ddylai fod yn sail i gyfyngu ar fynediad cyhoeddus, sut y dylid eu diffinio, a beth y dylid ei ystyried wrth benderfynu p'un a ddylid cau llwybrau dros dro mewn achosion o'r fath?
24. Pa newidiadau y dylid eu gwneud i weithdrefnau i'w gwneud yn fwy hyblyg, yn gyflymach, yn symlach, ac yn rhatach ar gyfer y bobl hynny sydd ynghlwm wrthynt, wrth gydbwyso buddiannau'r cyhoedd â buddiannau partïon eraill, fel rheolwyr tir?
25. Pa gamau allweddol y bydd yn rhaid i weithdrefnau eu cynnwys er mwyn cadw cydbwysedd teg rhwng buddiannau gwahanol?
26. Sut y gellir symleiddio'r camau o hysbysebu camau'r broses, denu cyhoeddusrwydd iddynt, a'u gwneud yn rhatach, wrth sicrhau bod y cyhoedd, a phobl eraill â diddordeb, yn ymwybodol o benderfyniadau arfaethedig i gau llwybrau, ac yn ymwybodol o'r llwybrau sydd wedi'u cau yn wirioneddol?
27. Sut y dylid atal y prosesau cau llwybrau dros y tymor byr, y maent yn cael effaith ar hawliau tramwy cyhoeddus, rhag datblygu'n rhai hirdymor, boed hynny drwy arfer neu drwy beidio â gweithredu? Pa gyfyngiadau y dylid eu gosod ar brosesau dros dro er mwyn diogelu buddiannau'r cyhoedd?
28. Sut y dylai prosesau gynnwys ystyriaeth o effeithiau unrhyw benderfyniad(au) i gau llwybr dros dro ar fynediad cyhoeddus ehangach, gan gynnwys yn y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, a mathau eraill o fynediad cyhoeddus?
29. Sut y dylid caniatáu hysbysiadau a/neu geisiadau mewn perthynas â chau llwybrau dros dro, eu dargyfeirio neu gyfyngu arnynt, ac i ba raddau? Sut y byddent yn cael eu hasesu, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddiogelu buddiannau'r cyhoedd?

## Rheoli stoc

# Pam?

Bu nifer fach o ddigwyddiadau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf pan anafwyd cerddwyr, neu eu lladd hyd yn oed, fel arfer wrth gerdded eu cŵn, gan wartheg â lloi. Mae'n bwysig bod prosesau sy'n cyfyngu ar fynediad cyhoeddus yn cydbwyso anghenion y cyhoedd ag anghenion ffermwyr er mwyn sicrhau y rheolir materion iechyd a diogelwch yn well er budd defnyddwyr hawliau tramwy a'r stoc ar eu tir. Yn benodol, gallai cyflwyno'r gallu i ddargyfeirio llwybrau i ffwrdd o gaeau sy'n cynnwys stoc ar adegau penodol o'r flwyddyn helpu i wneud hyn.

Ar hyn o bryd, y mater allweddol sy'n rhwystro ffermwyr rhag cynnig dargyfeiriad wrth wneud cais i gau llwybr yw'r goblygiadau i'w hatebolrwydd o safbwynt y defnyddwyr sy'n defnyddio'r dargyfeiriad. Pan fo aelodau o'r cyhoedd yn defnyddio hawl dramwy gyhoeddus, mae atebolrwydd y tirfeddiannwr yn gyfyngedig. Fodd bynnag, os ydynt yn defnyddio dargyfeiriad dros dro drwy ganiatâd, mae eu statws yn newid i'r hyn sydd gan ddefnyddiwr a wahoddwyd i ddefnyddio'r tir, gan olygu bod atebolrwydd y tirfeddiannwr yn cynyddu. Pe gellid sicrhau bod y statws defnyddiwr hwn yr un peth â defnyddiwr hawl dramwy gyhoeddus – i bob pwrpas deuai'r dargyfeiriad yn hawl dramwy gyhoeddus dros dro – byddai mwy o ffermwyr yn dueddol o ddarparu dargyfeiriadau o'r fath. Gan hynny, câi'r gwaith o reoli stoc ei hwyluso. Câi hyn effeithiau canlynol buddiol ar reolwyr tir y byddai'n ei chael yn haws gwneud pethau fel rheoli clefydau, a gallai ddwyn buddion economaidd gan gynyddu hyfywedd busnesau. Gallai'r buddion hyn fod yn dderbyniol i ddefnyddwyr mynediad cyhoeddus os byddai'r ddarpariaeth amgen (y dargyfeiriad) yn eglur, yn ddiogel, ac yn welliant o'i chymharu â'r llwybr presennol (neu o leiaf ddim yn llawer llai cyfleus neu'n hwylus).

Gallai newidiadau i fesurau rheoli stoc hefyd hwyluso gwaith yr awdurdodau lleol o wella hygyrchedd llwybrau trwy dynnu camfeydd a'u hailosod lle byddai mwy o hyblygrwydd o ran rheoli tir yn golygu y gellid ystyried na fyddai angen eu cael bellach ar gyfer rhesymau rheoli stoc. Byddai hyn yn enwedig o bwysig pe cyflwynid yr hawliau mynediad uwch a ystyrir o dan Ddiwygiad 2A.

# Beth?

Byddai angen cyflwyno system geisiadau syml, nad yw'n ddrud ar gyfer ffermwyr. Gallai hon fod yn gysylltiedig â chau llwybrau a threfnu dargyfeiriadau am gyfnodau byr, gan ei gwneud yn haws rheoli stoc a thir. Dylid sicrhau y câi terfyn amser ei bennu i bob dargyfeiriad a chyfnod cau llwybr, a hynny o safbwynt ei hyd a'r amlder y gellid ei gau. Fodd bynnag, efallai y byddai angen cael system hyblyg i'w gwneud yn bosibl cau llwybrau a threfnu dargyfeiriadau heb wneud cais. Awgrymwyd y gellid cyflwyno system drwyddedu lle gallai rheolwyr tir ymgymryd ag elfennau penodol o waith heb wneud cais, ond lle gellid dirymu trwydded mewn achosion lle nad oedd unigolion yn glynu at ofynion y cynllun.

Byddai angen cyflwyno system gwyno i'w gwneud yn bosibl i ddefnyddwyr adrodd anawsterau, neu lwybrau sydd wedi'u cau am gyfnod hwy na'r hyn a ganiatawyd. Byddai angen gosod arwyddion clir ar hyd llwybrau sydd wedi'u dargyfeirio ac iddynt fod yn addas i'w defnyddio. Byddai angen i reolwyr tir dynnu arwyddion i lawr cyn gynted ag y byddai cyfnod cau llwybr a'r dargyfeiriad wedi dod i ben, er mwyn osgoi drysu defnyddwyr.

Byddai angen adolygu Adran 147 o'r Ddeddf Priffyrdd er mwyn ei gwneud yn bosibl tynnu camfeydd lle nad oes eu hangen rhagor (gan gynnwys dirymu awdurdodiadau

Adran 147), gosod adeileddau mwy hyblyg sy'n hwyluso mynediad i ddefnyddwyr hawliau uwch ond sydd hefyd yn darparu ar gyfer gwaith rheoli stoc, cyflwyno gallu i ddisodli rhai adeileddau â rhai mwy hygyrch, a chyflwyno'r gallu i bennu unrhyw atebolrwydd o safbwynt gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr adeileddau hynny.

Byddai angen diogelu hawliau cyhoeddus wrth wneud unrhyw newidiadau.

## Goblygiadau

Os caiff dargyfeiriadau dros dro eu caniatáu ar gyfer rheoli stoc, byddai angen cyflwyno system ar gyfer cyfleu gwybodaeth i'r cyhoedd. Byddai ymgyrch cyhoeddusrwydd yn helpu i ddefnyddwyr llwybrau ddeall pryd i ddilyn arwyddion dargyfeiriadau, a'r goblygiadau o beidio â chydymffurfio â nhw. I'r un graddau, byddai'n rhaid i reolwyr tir sicrhau eu bod yn tynnu arwyddion dargyfeiriadau i lawr ar ddiwedd cyfnodau cau er mwyn osgoi amheuaeth ac achosion o dresmasu.

Byddai angen diffinio'r hawliau a chyfrifoldebau perthnasol sy'n ymwneud â llwybr dargyfeiriad yn glir.

Byddai cyflwyno'r gallu i ddisodli camfeydd â gatiau mwy addas yn darparu ar gyfer defnydd hawliau uwch. Fodd bynnag, byddai'n bwysig sicrhau y cedwir nodweddion hanesyddol lleol, fel camfeydd carreg, neu'r camfeydd arch a geir ym Mro Morgannwg, a sicrhau na chaiff gatiau traddodiadol a gynhyrchir yn lleol eu disodli â dyluniau safonol.

**Materion allweddol:**

30. Sut y dylid diwygio prosesau er mwyn hwyluso mwy o hyblygrwydd o safbwynt gwaith rheoli stoc, a diogelu hawliau mynediad y cyhoedd a hygyrchedd y rhwydwaith ar yr un pryd?
31. Sut y gellir sicrhau y bydd prosesau gweithdrefnol yn llai beichus, ac yn gymesur â'r cyfnod amser y byddant yn weithredol a'r effaith y byddant yn ei chael ar fynediad cyhoeddus?
32. Pa fesurau gorfodi, a pha gyfyngiadau y dylid eu gosod ar ddefnyddio prosesau newydd, a'r gwaith o'u sicrhau, yn yr achosion lle'u gwnaed yn llai beichus ar gyfer rheolwyr tir?

## Pethau eraill i'w hystyried

Dylid nodi bod gwaith eisoes yn mynd rhagddo yn Lloegr o ran dargyfeiriadau dros dro a gwaith rheoli stoc, er mwyn datrys problemau iechyd a diogelwch. Mae'r Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad wedi bod yn gweithio gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'w gwneud yn bosibl cyflwyno dargyfeiriadau dros dro â therfyn amser. Gallai fod yn werth gwneud ymchwil bellach i hyn wrth ddatblygu opsiynau.